

Addas i'r dyfodol: Rheoli coedwig Clocaenog

Mae coedwig Clocaenog yn fodel gweithredol o ymagwedd wahanol at goedwigaeth ac mae'n dangos y gall dewisiadau eraill heblaw cwmpo a chlirio coed fod yn gynhyrchiol o ran cyflenwi pren gan ddarparu ar yr un pryd fanteision sylweddol ym maes bioamrywiaeth a gwella gwydnwch coedwigoedd yn wyneb newidiadau hinsoddol. Mae'r amser a'r adnoddau a fuddsoddwyd yng Nghlocaenog dros y ddau ddegawd diwethaf yn golygu ei bod yn goedwig sy'n addas i'r dyfodol.

Mae coedwig Clocaenog yn cwmpasu ardal o 4,166 hectar. Mae ychydig llai na hanner ohoni yn cael ei reoli drwy ddefnyddio Systemau Coedamaeth Effaith Isel (LISS) sy'n dibynnu ar deneuo cynydu'n raddol ac yn olynol er mwyn creu coedwig fwy amrywiol o ran strwythur. Mae'n cael ei rheoli er mwyn darparu buddion amlbwrpas, gan gynnwys cadwraeth bioamrywiaeth yn achos rhywogaethau allweddol fel y wiwer goch, y rugiar ddu a'r glöyn byw, y britheg berlog bach.



Mae Clocaenog yn un o'r tair ardal ffocws yng Nghymru ar gyfer gwarchod y wiwer goch. Rydym yn rheoli'r goedwig, mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn cefnogi eu cadwraeth barhaus, er enghraifft trwy adael safleoedd o goed sbriws Norwy heb eu teneuo a chynnal a chadw coridorau cysylltiol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n ymgymryd â phrosiect atgyfnerthu poblogaeth trwy ryddhau gwiwerod coch gafodd eu bridio tra'n gaeth.

Wrth sôn am y gwaith cadwraeth, dywedodd Craig Shuttleworth, Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus ar Ymweliad, Prifysgol Bangor:

"Mae atgyfnerthu gwiwerod coch Clocaenog yn enghraifft wych o wyddoniaeth dinasyddion, yn enghraifft o arfer cadwraeth rhywogaethau cymhwysol mewn planhigfa gonwydd fasnachol, weithredol. Mae'r darganfyddiadau a'r gwersi sy'n cael eu dysgu nid yn unig yn torri tir newydd ond byddant o bwys mawr i reolaeth genedlaethol ehangach gwiwerod llwyd ymledol ac i'r dasg o adfer y wiwer goch frodorol".

Mae arferion rheoli coedwigoedd wedi'u targedu hefyd yn helpu i gefnogi poblogaeth sylweddol y glöyn byw, y britheg berlog bach sy'n bridio ac yn symud rhwng y clytiau bach o laswelltir gwlyb a chorsydd trwy'r goedwig lle mae'r planhigion bwyd larfaol (fioled y gors) i'w gweld. O ran y rugiar ddu, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i reoli'r ystâd ac ardal ucheldir Hiraethog gerllaw er mwyn cadw cynefin ucheldir agored, gyda rheolaeth gylchdro ar y grug.

Mae Clocaenog hefyd yn un o rwydwaith o bum safle ymchwil ledled Prydain Fawr lle mae LISS yn cael ei arddangos yn ymarferol, gan wella sgiliau coedwigwyr i'r dyfodol.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

